



# CAIS HELPU

2024/25




dwrcymru.com

PAB 0160

# HELPU

Os ydych yn gartref incwm isel ac yn cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth o'n tariff HelpU i leihau eich taliadau yn y dyfodol.

## SUT MAE BOD YN GYMWYS?

**Er mwyn cael eich ystyried**, mae'n rhaid i rywun yn y cartref gael o leiaf un o'r budd-daliadau canlynol sy'n dibynnu ar brawf modd:

- Credyd Pensiwn
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm (JSA)
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm (ESA)
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol
- Budd-dal Tai
- Gostyngiad/Cymorth Treth Gyngor

**AC**, mae'n rhaid bod incwm cyfunol blynyddol eich cartref ar y trothwy ar gyfer maint yr aelwyd neu'n is na'r trothwy, fel y dangosir yn y tabl isod. Mae'n bwysig darparu cyfanswm nifer y preswylwyr (gan gynnwys plant) a chynnwys pob incwm ar gyfer deiliaid sy'n byw yn eich eiddo sy'n 16 oed a throsodd.

### INCWM EICH CARTREF

| Maint yr aelwyd | Trothwy incwm |
|---|---|
| 1 | £11,600 |
| 2 | £17,400 |
| 3 + | £18,800 |

## NI FYDDWCH YN GYMWYS AR GYFER HELPU OS YW'R CANLYNOL YN BERTHNASOL:

- Rydych yn dyfrio eich gardd gydag offer na ddelir â llaw fel taenellwr neu system ddyfrhau ddomestig.
- Mae gennych bwll nofio neu bwll sy'n gallu dal mwy na 10,000 o litrau.
- Nid hwn yw eich prif gartref.
- Defnyddir eich eiddo at ddibenion masnachol/busnes.
- Rydych yn rhannu taliadau eich bil gyda'ch cymydog/cymdogion.
- Rydych yn adnewyddu eich eiddo.
- Caiff yr eiddo ei ddefnyddio fel eiddo byw â chymorth.

## PRAWF O INCWM

Weithiau, gallwn ofyn i chi ddarparu prawf o incwm.

Os hoffech gyflymu eich cais, rhowch brawf o'ch incwm ar gyfer pob deiliad 16 oed a throsodd e.e. hysbysiad dyfarnu cyfredol neu 3 mis o gyfriflenni banc neu 3 mis o slipiau cyflog (rydyn ni'n derbyn llungopïau).

## GELLIR GWRTHOD EICH CAIS HELPU OS YW'R CANLYNOL YN BERTHNASOL:

- Mae eich cais yn anghyflawn.
- Nid yw eich cartref yn cael budd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd a/neu mae eich incwm yn uwch na'r trothwy incwm ar gyfer maint eich aelwyd.
- Ni allwch ddarparu prawf o incwm, os gofynnir am hynny.

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, caiff unrhyw ostyngiad yn eich taliadau ei gymhwyso i'ch cyfrif o ddyddiad derbyn eich cais HelpU.

Y taliad HelpU blynyddol yw £290.03 (£116.52 ar gyfer dŵr, £173.51 ar gyfer carthffosiaeth).

# SUT I WNEUD CAIS

1. Darllenwch y ffurflen gais a'i chwblhau'n llawn.
2. Tynnwch y ffurflen gais o'r llyfryn.
3. Cofiwch gynnwys llungopi fel tystiolaeth i ategu'ch cais. Gallai hyn fod yn hysbysiad dyfarnu, yn gyfriflen banc neu'n slip cyflog. Bydd angen i chi ddarparu hyn ar gyfer pob ffrwd incwm a nodir ar y ffurflen.
4. Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen gais at: **Rhadbost Dŵr Cymru Welsh Water**
5. Byddwn yn rhoi penderfyniad i chi o fewn 14 diwrnod:
   - Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn dweud wrthych pam.
   - Os bydd eich cais yn llwyddiannus, caiff unrhyw ostyngiad yn eich taliadau ei gymhwyso i'ch cyfrif o ddyddiad derbyn eich cais HelpU.

Fel arall, gwnewch gais ar-lein yn **dwrcymru.com/costaubyw** er mwyn cael penderfyniad ar eich cais ar unwaith.

# TELERAU AC AMODAU HELPU

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn gytundeb rhyngoch chi (y Cwsmer) a Dŵr Cymru Cyfyngedig (Dŵr Cymru). Darllenwch y telerau hyn yn ofalus. Drwy gyflwyno ffurflen gais HelpU, byddwch yn cytuno i'r Telerau ac Amodau hyn.

Os ydych yn anghytuno ag unrhyw un o'r Telerau ac Amodau hyn, ni ddylech gyflwyno ffurflen gais HelpU.

## 2. AMDANOCH CHI

Trwy nodi eich enw llawn, rydych yn cadarnhau mai chi yw deiliad y cyfrif, neu eich bod yn berson a enwir ar y cyfrif ac felly mae gennych yr awdurdod i wneud y canlynol:

- Gwneud diwygiadau i'ch cyfrif
- Darparu gwybodaeth am incwm cyfunol blynyddol y cartref ac unrhyw wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i wneud cais am HelpU

## 3. EICH GWYBODAETH BERSONOL

Gallai'r wybodaeth bersonol ganlynol a ddarparwch gael ei defnyddio i ddiweddaru'r manylion sydd gennym ar eich cyfer ar hyn o bryd:

- Enw cyntaf
- Enw canol
- Cyfenw
- Rhif ffôn cyswllt
- Cyfeiriad e-bost
- Dyddiad geni

## 4. EICH CARTREF

Mae'n rhaid i chi nodi cyfanswm nifer y preswylwyr (gan gynnwys plant) sy'n byw yn eich cartref. Bydd angen i ni wybod:

- Cyfanswm nifer yr oedolion 16 oed a throsodd (gan gynnwys y rhai sydd mewn addysg llawn amser)
- Cyfanswm nifer y plant o dan 16 oed

Mae'n rhaid i chi gadarnhau pa mor hir rydych wedi byw yn yr eiddo, i'r mis agosaf. Byddwn yn gwirio hyn yn erbyn y dyddiad y gwnaethom ddechrau anfon biliau atoch am daliadau dŵr a charthffosiaeth. Byddwn yn cysylltu â chi os oes unrhyw anghysondebau ac mae'n bosibl y byddwn yn gwneud diwygiadau priodol i'ch cyfrif.

### 4.1 Prif gartref domestig

Dim ond mewn perthynas ag un eiddo y mae HelpU ar gael, ac mae'n rhaid taw eich prif gartref yw hwnnw. Rydych yn cytuno i roi gwybod i ni os bydd eich prif gartref yn newid.

## 5. CYFANSWM INCWM CYFUNOL EICH CARTREF

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi'r manylion cywir ar gyfer incwm cyfunol blynyddol eich cartref. Drwy gyflwyno'r wybodaeth hon rydych yn cadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth gywir.

### 5.1 Incwm o gyflogaeth

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym beth yw cyfanswm blynyddol cyflogau pawb yn eich cartref sy'n 16 oed a throsodd ar ôl didyniadau. Gall hyn fod bob wythnos, pythefnos, pedair wythnos, mis, chwe mis neu bob blwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys pob incwm a geir o gyflogaeth llawn amser neu ran amser. Efallai y gofynnir i chi ddarparu prawf o incwm o gyflogaeth (er enghraifft copïau o'ch slipiau cyflog). Yr incwm y dylid ei gynnwys yw:

- Incwm o Gyflogaeth (cyflog ar ôl didyniadau)
- Incwm Hunangyflogedig
- Lwfans Maethu

### 5.2 Incwm o fudd-daliadau

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym beth yw cyfanswm incwm blynyddol pawb sydd dros 16 oed yn eich cartref o fudd-daliadau (cyn unrhyw ddidyniadau). Gall hyn fod bob wythnos, pythefnos, pedair wythnos, mis, chwe mis neu bob blwyddyn.

**Budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd:**

- Credyd Pensiwn
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol
- Budd-dal Tai
- Gostyngiad/Cymorth Treth Gyngor

**Budd-daliadau eraill:**

- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Gofalwr
- Budd-dal Analluogrwydd
- Budd-dal Plant
- Lwfans/Taliad Mamolaeth
- Tâl Salwch Statudol

**Nodyn Arbennig: Rydyn ni'n eithrio'r canlynol o'r cyfrifiad o gyfanswm incwm cyfunol y cartref:**

- Gostyngiad/Cymorth Treth Gyngor
- Budd-dal Tai ac elfen Dai Credyd Cynhwysol
- Premiymau anabledd/gofalwr ar Gredyd Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Premiymau anabledd ar Gredydau Treth Plant/Gwaith
- Elfennau Plentyn Anabl a Gallu Cyfyngedig i Weithio y Credyd Cynhwysol
- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Gofalwr ac elfen Gofalwr Credyd Cynhwysol

Gallwn, yn ôl ein disgresiwn, eithrio budd-daliadau eraill. Mae'n bwysig bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn gywir oherwydd efallai y gofynnir i chi ddarparu prawf o fudd-dal (er enghraifft copïau o'ch Hysbysiadau Dyfarnu budd-dal neu gyfriflenni banc).

### 5.3 Incwm o bensiynau

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym beth yw cyfanswm yr incwm blynyddol o bensiynau a geir gan bawb yn eich cartref sy'n 16 oed a throsodd. Gall hyn fod bob wythnos, pythefnos, pedair wythnos, mis, chwe mis neu bob blwyddyn.
Y pensiynau y dylid eu cynnwys yw:

- Pensiynau Preifat/Galwedigaethol
- Pensiwn y Wladwriaeth

Mae'n bwysig bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn gywir oherwydd efallai y gofynnir i chi ddarparu prawf o bensiynau (er enghraifft copïau o'ch Hysbysiadau Dyfarnu neu gyfriflenni banc).

### 5.4 Incwm o ffynonellau eraill

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym beth yw cyfanswm yr incwm blynyddol o ffynonellau eraill a geir gan bawb yn eich cartref sy'n 16 oed a throsodd. Gall hyn fod bob wythnos, pythefnos, pedair wythnos, mis, chwe mis neu bob blwyddyn. Yr incwm arall y dylid ei gynnwys (ymhlith eraill) yw:

- Cynhaliaeth plant
- Llog o gynilion a buddsoddiadau
- Benthyciad Myfyrwyr

Mae'n bwysig bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn gywir oherwydd efallai y gofynnir i chi ddarparu prawf o incwm arall drwy ddangos tystiolaeth (er enghraifft copïau o'ch cyfriflenni banc).

## 6. SUT BYDDWN NI'N PROSESU EICH CAIS

### 6.1 Gwirio eich data

Ar ôl i'ch cais ddod i law byddwn yn gwirio eich data a naill ai yn eich ffonio neu'n anfon ymateb ysgrifenedig atoch o fewn 14 diwrnod. Byddwn yn dweud wrthych os cafodd eich cais ei dderbyn, ei wrthod neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnom.

### 6.2 Sut y byddwn yn gwirio eich data

Nodwch, drwy gyflwyno ffurflen gais HelpU, rydych yn rhoi caniatâd i Dŵr Cymru rannu a dilysu'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi gydag adrannau'r llywodraeth, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Asiantaethau Gwirio Credyd ac Asiantaethau Atal Twyll fel y bo'n briodol. Gall hyn gynnwys gwirio data pobl gysylltiedig. Cyfeiriwch at adran 'Sut rydym yn defnyddio eich data' yn llyfryn 'Dŵr Cymru i chi' Dŵr Cymru am ragor o fanylion.

### 6.3 Ceisiadau a dderbynnir

Byddwn yn derbyn pob cais HelpU, lle y gwiriwyd bod incwm cyfunol blynyddol y cartref yn bodloni meini prawf cymhwysedd y tariff a bod cyfanswm nifer y preswylwyr (gan gynnwys plant) wedi'i gadarnhau. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd eich cais yn llwyddiannus. Bydd eich taliadau yn gostwng yn unol â Chynllun Taliadau Dŵr Cymru a byddant yn gymwys o'r dyddiad y derbyniwyd y cais. Byddwn yn eich hysbysu'r o'r swm sydd angen i chi ei dalu i Dŵr Cymru drwy'r dull o dalu a ffefrir gennych.

### 6.4 Angen rhagor o wybodaeth

Efallai y bydd angen i Dŵr Cymru ofyn am ragor o wybodaeth gennych i gefnogi eich cais cyn y gwneir penderfyniad (er enghraifft tystiolaeth ategol fel Hysbysiad Dyfarnu). Os felly, byddwn ni'n cysylltu â chi. Os na ddarperir tystiolaeth o'ch incwm ar gais, caiff eich cais ei wrthod.

### 6.5 Ceisiadau a wrthodir

Os byddwn wedi cael gwybodaeth sy'n dangos bod incwm cyfunol blynyddol eich cartref yn uwch na'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer HelpU, byddwn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu bod eich cais wedi cael ei wrthod. Yn seiliedig ar y wybodaeth rydych wedi ei rhoi i ni, efallai y byddwn yn cynnig cyngor i chi ar gynlluniau fforddiadwyedd eraill Dŵr Cymru a all fod o fudd i chi. Byddwn hefyd yn gwrthod eich cais os byddwn yn darganfod eich bod wedi rhoi gwybodaeth anghywir.

## 7. Y BROSES APELIO

Os cafodd eich cais ei wrthod ac rydych eisiau apelio yn erbyn penderfyniad Dŵr Cymru, mae'n rhaid i chi roi'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn yr hysbysiad gwrthod. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y byddwn yn eich cyfeirio at gynghorydd ariannol annibynnol a bydd yn rhaid i chi fynd drwy asesiad

incwm a gwariant llawn, cyflwyno pob dogfen ategol a derbyn cyngor proffesiynol ar sut i fanteisio i'r eithaf ar eich incwm a rheoli biliau eich cartref.

## 8. SUT RYDYN NI'N DEFNYDDIO EICH DATA

Bydd Dŵr Cymru yn defnyddio data incwm cyfunol blynyddol eich cartref er mwyn asesu eich cais am dariff HelpU ond efallai y bydd hefyd yn defnyddio'r data a gasglwyd i weinyddu cynlluniau cymorth ariannol ac anariannol eraill. Am ragor o wybodaeth, gweler adran 'Sut rydyn ni'n defnyddio eich data' yn llyfryn 'Dŵr Cymru i chi' Dŵr Cymru.

### 8.1 Y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth

Mae ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth yn ein helpu ni i gynorthwyo cwsmeriaid sydd angen cymorth ychwanegol, dros dro neu'n barhaol, er enghraifft oherwydd anhwylder meddygol neu afiechyd, neu oherwydd anghenion cyfathrebu. Darperir y gwasanaeth am ddim, ac mae'n cynnwys nifer o fuddion a amlinellir iod, ond rhaid i gwsmeriaid gofrestru i gael y gwasanaeth yma gennym ni.

Gall Dŵr Cymru Welsh Water eich ychwanegu at y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth hefyd os ydyn ni'n credu y gallech elwa o'r cymorth ychwanegol yma. Byddwn ni'n cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i sicrhau bod eich manylion yn dal i fod yn gyfoes, ond rhowch wybod i ni os bydd eich manylion neu'ch amgylchiadau'n newid.

Mae Dŵr Cymru yn cadw gwybodaeth cwsmeriaid sy'n ymwneud â gwasanaethau blaenoriaeth, ac efallai y bydd yn rhannu'r wybodaeth honno, ar sail 'budd cyhoeddus sylweddol' (sef lle mae angen i ni wneud hynny yn ein barn ni, neu lle rydych yn dweud wrthym fod angen help arnoch) fel y gallwn ni, a sefydliadau eraill yn eich ardal, flaenoriaethu'r gwaith o ddiogelu ein cwsmeriaid sydd ag anghenion ychwanegol. I gael rhagor o wybodaeth am Wasanaethau Blaenoriaeth, gweler ein ffurflen 'Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth'. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio eich data, gweler ein llyfryn 'Sut rydyn ni'n defnyddio eich data'.

Os nad ydych am i ni eich ychwanegu at y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, rhowch wybod i ni. Fodd bynnag, os byddwch yn gwrthod, byddwn yn ystyried eich amgylchiadau yn fanylach er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu. Gallwch roi gwybod i ni nawr, neu gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg.

Gallech fod yn rhiant â babi, â salwch sy'n gofyn am ddefnyddio dŵr, anawsterau gweld neu glywed, yn oedrannus neu'n anabl.

Mae'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth yn golygu y gallwch gael:

- Cyflenwad dŵr yfed amgen mewn argyfwng
- Ffyrdd amgen o dderbyn gwybodaeth
- Sicrwydd rhag galwyr ffug.

Dylid nodi y gallwn flaenoriaethu cyflenwadau dŵr potel i'r rhai mwyaf bregus mewn cyfnodau o angen, felly cofiwch roi gwybod i ni os oes gennych anhwylderau neu amgylchiadau sy'n gofyn am sylw brys.

## 9. OS BYDD EICH AMGYLCHIADAU'N NEWID

Rydych chi'n cytuno i roi gwybod i Dŵr Cymru ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar lefel incwm cyfunol blynyddol eich cartref. Gallai hyn gynnwys os yw lefel yr incwm yn cynyddu neu'n gostwng, a/neu os bydd newid yn nifer y preswylwyr yn eich cartref.

## 10. ADOLYGIADAU/ARCHWILIADAU

Mae'r cynllun yn rhedeg am 12 mis ar y tro a bydd yn rhaid i chi wneud cais arall ar ddiwedd pob cyfnod o 12 mis. Os na fyddwch yn gwneud cais arall, caiff y tariff ei ddileu'n awtomatig. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol, mae'n bosibl na fydd angen i chi wneud cais arall. Os felly, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi.

### 10.2 Amseru archwiliadau

Cynhelir yr archwiliad ar hap yn ystod eich cyfnod ar y tariff.

### 10.3 Mae Dŵr Cymru'n cadw'r hawl i wneud y canlynol:

- Gwirio eich amgylchiadau ariannol presennol gyda chyrff y llywodraeth, Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Asiantaethau Gwirio Credyd neu Asiantaethau Atal Twyll, fel y bo'n briodol
- Gofyn am ddogfennau ategol (er enghraifft cyfriflenni banc/Hysbysiadau Dyfarnu i gadarnhau incwm cyfredol)
- Gofyn i chi gwblhau asesiad incwm a gwariant llawn

### 10.4 Canlyniadau archwiliadau

Efallai y bydd Dŵr Cymru yn eich hysbysu yn ysgrifenedig am ganlyniad pob archwiliad a gynhelir ac os bydd unrhyw newidiadau i'ch taliadau dŵr a charthffosiaeth. Os na ddarperir prawf o'ch incwm ar gais, cewch eich tynnu oddi ar y tariff HelpU.

## 11. CEISIADAU TWYLLODRUS

Os bydd Dŵr Cymru yn amau unrhyw weithgarwch twyllodrus ar sail unrhyw wybodaeth a roddir fel rhan o gais HelpU, gall hybsysu'r awdurdodau am unrhyw weithgarwch twyllodrus o'r fath.

## 12. ADBORTH

Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i gael adborth ar y gwasanaethau a ddarperir gennym at ddibenion ymchwil i'r farchnad neu ymchwil arall.

# CYSYLLTU Â NI

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth gyda'r ffurflen hon, gallwch gysylltu â ni ar:

**0330 041 3394**

(Llun i Gwener 8am – 6pm, Sadwrn 9am – 1pm)

Mae gennym wasanaeth Text Relay ar gyfer cwsmeriaid sydd ag anawsterau gyda'u clyw a'u lleferydd:
Ffôn testun: 18001 a'r rhif rydych am ei ffonio

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn fformatau eraill, gan gynnwys CD a phrint bras.

# FFURFLEN GAIS HELPU
## 2024-25

Dŵr Cymru Welsh Water

Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd yn ofalus cyn llenwi a dychwelyd y ffurflen hon.

## CAM 1 — CHI A'CH CYFRIF

**Rhif cyfrif y cwsmer:**
(hwn yw'r rhif sy'n ymddangos ar eich bil dŵr)

..................................................................

**Pryd symudoch chi i'ch cartref?**
(DD/MM/BBBB)

..................................................................

**Teitl:** ..............................................................

**Enw Cyntaf:** ..................................................

**Enw(au) Canol:** ..............................................

**Cyfenw:** .........................................................

**Dyddiad geni** (DD/MM/BBBB): .......................

**Cyfeiriad:** .....................................................

..................................................................

..................................................................

..................................................................

**Cod post:** .....................................................

**Eich rhif ffôn:**

..................................................................

**Eich cyfeiriad e-bost:**

..................................................................

**Ticiwch y blwch sy'n eich disgrifio:**

☐ **Perchennog tŷ** ☐ **Tenant**

Os ydych yn denant, rhowch fanylion:

**Enw llawn y landlord neu'r asiant:**

..........................................................

**Cyfeiriad y landlord neu'r asiant:**

..........................................................

**Rhif ffôn y landlord neu'r asiant:**

..........................................................

**Maint y cartref**

Dywedwch wrthym faint o bobl sy'n byw yn eich cartref, gan gynnwys chi eich hun ac unrhyw blant.

**Nifer y bobl 16 oed a throsodd**

..........................................................

**Nifer y bobl o dan 16 oed**

..........................................................

**Ticiwch y blwch sy'n eich disgrifio:**

☐ Cyflogedig

☐ Hunangyflogedig

☐ Wedi ymddeol

☐ Di-waith

## CAM 2 – CAEL BUDD-DALIADAU SY'N DIBYNNU AR BRAWF MODD AC INCWM CYFUNOL BLYNYDDOL Y CARTREF

**Nodyn cyfarwyddyd:**
Yn gyntaf, defnyddiwch y blychau yn yr adran budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd isod i roi gwybod i ni pa rai mae eich cartref yn eu cael.
Yna defnyddiwch y rhestr o fathau o incwm isod i ddweud wrthym pa rai sy'n gymwys i chi a pha mor aml y maent yn cael eu talu i chi (Person 1), neu i unrhyw un arall sy'n byw gyda chi sy'n 16 oed a throsodd (Person 2, Person 3).

- Rydyn ni'n eithrio'r mathau o incwm sydd wedi eu cysgodi o'r cyfrifiad o incwm blynyddol y cartref, ond mae angen i chi roi gwybod i ni faint rydych yn ei gael o hyd
- Dywedwch wrthym gyfanswm yr hawl i fudd-daliadau cyn i unrhyw ddidyniadau gael eu gwneud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

**Os NAD ydych wedi ticio unrhyw un o'r blychau budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, peidiwch â pharhau â'r ffurflen gais oherwydd yn anffodus nid ydych yn gymwys ar gyfer y tariff hwn. Mae gennym gynlluniau eraill ar gael a all eich helpu. Ewch i dwrcymru.com/costaubyw neu cysylltwch â ni ar 0330 041 3394 i drafod eich opsiynau ymhellach.**

Ticiwch y budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd sy'n gymwys

**Budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd**

| Math o Incwm | | Person 1 | Person 2 | Person 3 |
|---|---|---|---|---|
| **Credyd Pensiwn** (ac eithrio premiymau anabledd/gofalwr) | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm** (ac eithrio premiymau anabledd/gofalwr) | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Cymhorthdal Incwm** (ac eithrio premiymau anabledd/gofalwr) | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm** (ac eithrio premiymau Grŵp Cymorth, Grŵp Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith ac anabledd/gofalwr) | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Credyd Treth Plant** (ac eithrio premiymau anabledd) | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Credyd Treth Gwaith** (ac eithrio premiymau anabledd) | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Credyd Cynhwysol** (ac eithrio elfennau Tai, Gofalwr, Plentyn Anabl a Gallu Cyfyngedig i Weithio) | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Budd-dal Tai neu elfen Tai y Credyd Cynhwysol** | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Gostyngiad/Cymorth Treth Gyngor** | ☐ | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Premiymau anabledd/gofalwr ar Gredyd Pensiwn, Lwfans Ceisio Gwaith a Chymhorthdal Incwm** | | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| **Premiymau Grŵp Cymorth, Grŵp Gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gwaith ac anabledd/gofalwr ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth** | | £ | £ | £ |
| Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Prawf Modd | Premiymau anabledd ar Gredydau Treth Plant/Gwaith | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Elfennau Plentyn Anabl a Gallu Cyfyngedig i Weithio Credyd Cynhwysol | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| Budd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd | Lwfans Gweini | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Lwfans Byw i'r Anabl | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Taliad Annibyniaeth Personol | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Lwfans Gofalwr neu elfen Gofalwr Credyd Cynhwysol | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Budd-dal Analluogrwydd | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Budd-dal Plant | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Lwfans/Taliad Mamolaeth | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Tâl Salwch Statudol | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| Cyflogaeth | **Incwm o Gyflogaeth** (cyflog ar ôl didyniadau) | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Incwm Hunangyflogedig | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| Pensiynau | Pensiwn Preifat/Galwedigaethol | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Pensiwn y Wladwriaeth | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| Incwm Arall | Cynhaliaeth Plant | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Llog o Gynilion a Buddsoddiadau | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |
| | Benthyciad i Fyfyrwyr* | | £ | £ | £ |
| | Pa mor aml y caiff ei dalu? | | | | |

*Ar gyfer eiddo myfyrwyr, bydd angen copi o'ch Cytundeb Tenantiaeth a chopïau o Lythyr Hysbysiad o Hawl pob tenant oddi wrth Cyllid Myfyrwyr i gadarnhau incwm eich cartref.

## CAM 3 – CYNLLUN TALU

**Os nad oes gennych gynllun talu neu os hoffech ei newid, dewiswch naill ai Debyd Uniongyrchol, Dŵr Uniongyrchol neu Gerdyn Talu o'r opsiynau isod.**

Os na fyddwch yn dewis dull o dalu byddwn yn anfon cerdyn talu atoch.

Os oes gennych gynllun talu ar eich cyfrif ar hyn o bryd, caiff eich taliadau eu hadolygu pan gaiff eich cais ei dderbyn.

Os oes gennych ôl-ddyledion ar eich cyfrif, mae'n bosibl na fydd eich cynllun talu presennol yn newid.

### Debyd Uniongyrchol

Dŵr Cymru Welsh Water | Cyfarwyddyd i'ch banc neu gymdeithas adeiladu dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol

DIRECT Debit

Amlder talu: ☐ Bob wythnos ☐ Bob mis

Diwrnod/dyddiad talu:

Enw a chyfeiriad eich banc neu gymdeithas adeiladu:

Enw(au) deiliad (deiliaid) y cyfrif:

Rhif cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu:

Cod Didoli'r Gangen:

Rhif Defnyddiwr Gwasanaeth:

| 9 | 9 | 7 | 5 | 4 | 2 |
|---|---|---|---|---|---|

Rhif cyfeirnod y cwsmer:
(Y rhif yng nghornel dde uchaf eich bil dŵr)

**Cyfarwyddyd i'ch banc neu gymdeithas adeiladu**

Dylid talu Debydau Uniongyrchol i Dŵr Cymru o'r cyfrif a nodir yn y Cyfarwyddyd hwn yn ddarostyngedig i'r mesurau diogelu a ddarperir drwy'r Warant Debyd Uniongyrchol. Deallaf y gall y Cyfarwyddyd hwn aros gyda Dŵr Cymru Cyfyngedig ac, os felly, caiff y manylion eu trosglwyddo'n electronig i'm Banc/Cymdeithas Adeiladu.

Llofnod(ion):

Dyddiad:

**Y Warant Debyd Uniongyrchol**

Mae pob banc a chymdeithas adeiladu sy'n derbyn cyfarwyddiadau i dalu Debydau Uniongyrchol yn cynnig y Warant hon.

Os bydd swm, dyddiad neu amlder eich taliadau Debyd Uniongyrchol yn newid, bydd Dŵr Cymru yn rhoi gwybod i chi bum diwrnod gwaith cyn i'r arian gael ei dynnu o'ch cyfrif neu yn unol â threfniant arall y cytunwyd arno. Os byddwch yn gofyn i Dŵr Cymru gasglu taliad, cewch gadarnhad o swm a dyddiad y taliad pan fyddwch yn gwneud y cais.

Os bydd Dŵr Cymru neu eich banc neu gymdeithas adeiladu yn gwneud camgymeriad gyda'ch taliadau Debyd Uniongyrchol, bydd hawl gennych i gael ad-daliad llawn o'r swm a dalwyd ar unwaith gan eich banc neu gymdeithas adeiladu.

Os byddwch yn cael ad-daliad nad oes hawl gennych i'w gael, rhaid i chi ei dalu'n ôl pan fydd Dŵr Cymru Cyfyngedig yn gofyn i chi wneud hynny.

Gallwch ganslo Debyd Uniongyrchol unrhyw bryd drwy gysylltu â'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Efallai y bydd angen cadarnhad ysgrifenedig. Rhowch wybod i ni hefyd.

### Dŵr Uniongyrchol

Os ydych yn cael un o'r budd-daliadau canlynol, a bod gennych ôl-ddyledion ar eich cyfrif, efallai y byddwch yn gymwys i gael eich taliadau dŵr wedi eu talu yn uniongyrchol o'ch budd-daliadau/credydau treth:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn talu eich taliadau am y flwyddyn bresennol a swm penodol tuag at dalu eich ôl-ddyledion. Os hoffech dalu drwy ddefnyddio'r dull hwn, ticiwch y blwch isod a nodwch eich enw a'ch rhif Yswiriant Gwladol.

☐ Rwy'n cytuno i dalu fy nhaliadau dŵr o'm budd-daliadau.

Enw: ......................................

Rhif Yswiriant Gwladol:

......................................

### Cerdyn Talu

☐ Bob wythnos

Diwrnod: ..................

☐ Bob pythefnos

Diwrnod: ..................

☐ Bob mis

Dyddiad: ..................

## COFRESTR GWASANAETHAU BLAENORIAETH

Mae ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth yn ein helpu ni i gynorthwyo cwsmeriaid sydd angen cymorth ychwanegol, dros dro neu'n barhaol. Mae'r gwasanaeth yn hollol rad ac am ddim, a gall pobl gymwys elwa ar:

- Gyflenwad dŵr yfed amgen mewn argyfwng
- Ffyrdd amgen o dderbyn gwybodaeth
- Sicrwydd rhag galwyr ffug.

Dylid nodi y gallwn flaenoriaethu cyflenwadau dŵr potel i'r rhai mwyaf bregus mewn cyfnodau o angen, felly cofiwch roi gwybod i ni os oes gennych anhwylderau neu amgylchiadau sy'n gofyn am sylw brys.

**Biliau a thaflenni hygyrch** mewn fformatau fel print bras, Braille ac ar gefndir lliw ar gyfer pobl â dyslecsia. Gallwn anfon aelod o'n tîm allan i drafod eich bil a'ch taliadau gyda chi os ydych chi'n gaeth i'r cartref.

**Cysylltiadau hygyrch â Dŵr Cymru** fel cysylltiad â'n Gwasanaeth Negeseuon Testun (trwy Wasanaeth Testun Next Generation). Gwasanaeth am ddim yw hwn sy'n eich galluogi i ddweud neu deipio eich neges, a chaiff y geiriau eu trosi'n destun.

**Enwebu** perthynas, ffrind neu ofalwr i siarad â ni neu i dderbyn gohebiaeth ar eich rhan, os oes gennych drafferthion cyfathrebu neu os ydych chi'n ei chael hi'n anodd deall eich bil neu wybodaeth arall.

Ein **cynllun cyfrineiriau** i helpu i'ch amddiffyn rhag galwyr ffug sy'n hawlio eu bod nhw'n gweithio i ni.

Byddwn ni'n cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i ddilysu bod eich manylion yn gyfoes o hyd, ond cofiwch roi gwybod i ni os bydd eich manylion personol neu'ch amgylchiadau'n newid.

Byddwn ni'n defnyddio eich data i asesu a ydych yn gymwys ar gyfer y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth. Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau blaenoriaeth, ac efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth honno, ar sail 'budd cyhoeddus sylweddol' (sef lle mae angen i ni wneud hynny yn ein barn ni, neu lle rydych yn dweud wrthym fod angen help arnoch) fel y gallwn ni, a sefydliadau eraill yn eich ardal, flaenoriaethu'r gwaith o ddiogelu ein cwsmeriaid sydd ag anghenion ychwanegol.

☐ **Ticiwch y blwch hwn os nad ydych am i ni rannu eich manylion â sefydliadau yn eich ardal fel cyfleustodau, gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd a all eich helpu mewn argyfwng.**

## STEP 4 — CYN I CHI LOFNODI
## OS NA FYDDWCH YN CWBLHAU'R ADRAN HON, NI ALLWN DDERBYN EICH CAIS

**Mae'n bwysig eich bod yn gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni yn gywir.**

Efallai y byddwn yn gwirio hyn â thrydydd partïon (e.e. *Asiantaethau Gwirio Credyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EF, eich Landlord Cymdeithasol Cofrestredig — os yw'n gymwys — ac Asiantaethau Atal Twyll*) i gadarnhau'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni. Mae hyn yn cynnwys pawb rydych wedi sôn wrthym amdanynt yn eich cais.

- Rwy'n cadarnhau mai fi yw deiliad y cyfrif neu'r person a enwir ar y cyfrif.
- Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth a roddais yn fy nghais HelpU yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth ac rwy'n deall y gall Dŵr Cymru wrthod fy nghais os nad yw'r wybodaeth yn gywir.
- Byddaf yn rhoi gwybod i Dŵr Cymru os bydd amgylchiadau fy nghartref yn newid mewn ffordd a allai effeithio ar y wybodaeth a roddais.
- Rwy'n deall y gall Dŵr Cymru ofyn i mi ddarparu prawf o'r wybodaeth a roddais.
- Rwy'n deall y gall Dŵr Cymru fy ychwanegu at y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.
- Rwyf wedi darllen Telerau ac Amodau HelpU ac yn cytuno i'w dilyn.

**Enw mewn llythrennau bras:** ..............................

**Llofnod:** .............................. **Dyddiad:** ..............................

## RHESTR WIRIO DERFYNOL

**Ticiwch y blychau fel y bo'n briodol:**

☐ Rwyf wedi cwblhau pob cam er mwyn gwneud fy nghais.

☐ Rwyf wedi datgan pwy sy'n byw gyda mi, gan gynnwys unrhyw blant o dan 16 oed.

☐ Rwyf wedi datgan pa fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd mae fy nghartref yn eu cael.

☐ Rwyf wedi cynnwys manylion yr holl incwm ar gyfer pob preswylydd 16 oed a throsodd sy'n byw gyda mi.

☐ Rwyf wedi cwblhau Cam 3 am fod angen cynllun talu arnaf neu am fy mod yn dymuno ei newid.

☐ Rwyf wedi llofnodi a dyddio Cam 4.

**Dychwelwch eich ffurflen gais ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol i: Rhadbost Dŵr Cymru**

Ni fydd angen rhoi stamp na rhagor o fanylion cyfeiriad wrth ymateb.

TUDALEN WAG